



Canllawiau Gorau Ar Gyfer Arferion Trawsryweddol

Canllaw i staff ar sut i gefnogi myfyrwyr trawsryweddol

Dyddiad Cyhoeddi:	Ionawr 2019
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2022
Awdur:	Anne Pitman Rheolwr Diogelwch a Lles Dysgwyr
Lleoliad y Polisi:	BIZ-Sharepoint/Intranet/Policies & Procedures/Learner Services & Support
Cymeradwywyd y Polisi gan:	Tim Rheoli'r Coleg

Os hoffech chi, neu rywun yr ydych yn ei adnabod copi o'r polisi hwn mewn print mwy neu mewn fformat sain/electronig, cysylltwch â:

Rheolwr Diogelwch a Lles Dysgwyr: Anne Pitman
Ebst: anne.pitman@gowercollegeswansea.ac.uk

Cynnwys	Tudalen
1. Cyd-destun	3
2. Cwmpas	3
3. Datganiad o Bwrpas	3
4. Corff y Protocol	4
4.1. Defnyddio Rhagenwau	4
4.2. Newid Enw	4
4.3. Trawsnewid	5
4.4. Cwricwlwm/Gweithgareddau Tîm a Gweithgareddau Chwaraeon	5
4.5. Cod Gwisg	6
4.6. Cyfrinachedd	6
4.7. Defnyddio Toiledau	6
4.8. Defnyddio Ystafelloedd Newid	6
4.9. Teithiau Preswyl	7
5. Staff dynodedig sydd â chyfrifoldeb o gefnogi myfyrwyr Trawsryweddol a dolenni Ychwanegol i wefannau'r Undebau ar gyfer myfyrwyr DSW	7
6. Cyfweld Myfyrwyr	7
7. Yr Iaith Cymraeg	7
8. Atodiad 1 – Diffiniadau a gwefannau defnyddiol	8/9

1. Cyd-destun

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i sicrhau bod ei myfyrwyr yn teimlo'n ddiogel, a'u bod yn cael mynegi eu hunain, yn rhydd o fwlio. Mae'r Canllawiau Arferion Gorau yma wedi'u datblygu i gefnogi staff sy'n gefnogol o bobl ifanc ac oedolion trawsryweddol. Datblygwyd y canllawiau hefyd er mwyn cefnogi'r Coleg i fod yn amgylchedd sy'n croesawi myfyrwyr trawsryweddol, a fydd yn ei dro yn helpu i atal trawsffobia.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod oedolion a phobl ifanc traws a rhyw amrywiaethol gyda'r nodwedd warchoddedig o ailbennu rhywedd. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw un sy'n mynd trwy'r broses/wedi mynd trwy'r broses/yn bwriadu mynd trwy'r broses o ailbennu eu rhywedd. Er mwyn cymhwyso, nid oes rhaid i fyfyrwr mynd drwy weithdrefn feddygol o newid ei rhyw, ond yn hytrach yn cymryd camau gweithredol i newid ei rhyw yn gymdeithasol.

2. Cwmpas

Mae'r Protocol yn berthnasol holl i fyfyrwyr Coleg Gŵyr Abertawe (gan gynnwys myfyrwyr sy'n rhan o raglenni cyflogadwyedd y Coleg) sy'n mynd trwy'r broses o drawsnewid neu'n cwestiynu eu rhyw. Bydd y canllawiau'n sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chanllawiau Gwrth-fwlio yn erbyn pobl ifanc ac oedolion traws.

3. Datganiad o Bwrpas

Diben y protocol Arferion Trawsryweddol Gorau yw:

- a. Darparu arweinyddiaeth i staff ar sut i ddelio'n effeithiol â myfyrwyr sy'n drawsryweddol
- b. Cefnogi staff i ddatblygu amgylchedd sy'n atal trawsffobia
- c. Cefnogi'r Coleg gyda chydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chanllawiau Gwrth-fwlio yn erbyn pobl ifanc Trawsryweddol
- d. Cefnogi'r staff ar faterion ymarferol megis pa doiledau ac ystafelloedd newid i'w defnyddio, teithiau preswyl, gweithgareddau chwaraeon a.y.b.

4. Corff y Protocol /Canllaw Arferion Gorau

Pwrpas y ddogfen hon yw darparu arweiniad ar sut i gefnogi myfyrwyr trawsryweddol a myfyrwyr sy'n cwestiynu eu rhyw.

Mae gan fyfyrwyr DSW statws cyflogedig, a'u gwarchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r broses o drawsnewid yn gallu bod yn gyfnod anodd i rai unigolion. Mae gofyn i bawb sy'n mynd trwy'r broses orfod delio a rhieni, ffrindiau, gwr/gwraig, partneriaid sy'n dod i delerau a'r newid, sy'n gallu peri pryder.

Mae'n bwysig bod y Coleg yn cytuno gyda'r unigolyn o dan sylw am sut mae'r proses yn cael ei drin. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn cytuno ar sut y caiff eraill eu hysbysu o'r trawsnewid. Efallai bydd y person traws eisïau gwneud hyn ei hun, neu efallai byddai'n dymuno derbyn cefnogaeth o'r Coleg. Y peth pwysicaf, fodd bynnag, yw bod gan y person traws lais ar yr hyn a ddywedir wrth bobl a'r iaith a ddefnyddir.

Dylid ei gwneud hi'n glir i'r myfyriwr bod y Coleg yn cefnogi hawl pobl trawsryweddol i astudio'n rhydd o wahaniaethu ac aflonyddu. Bydd y Coleg yn eu cefnogi'n llawn.

4.1 Defnyddio Rhagenwau

Mae'n bwysig bod hunaniaeth oedolyn/person ifanc traws yn cael ei ddilysu a'u gefnogi. Mae'n bwysig hefyd bod y rhagenw dewisol yn cael ei ddefnyddio e.e. ef, hi, zie.

4.2 Newid Enw

Mae'n bwysig i barchu penderfyniad y person ifanc/oedolyn i newid ei enw yn unol â'r rhagenw a ddefnyddir i'w ddisgrifio, gan ddefnyddio'r enw yma'n gyson. Mae'r dewis ganddynt i ddewis yr enw y maent yn cael eu hadnabod ganddo, hyd yn oed os nad ydynt wedi newid eu henwau'n gyfreithiol.

Mae hawl gan fyfyriwr i newid ei enw'n answyddogol. Os yw'n dymuno newid ei enw ar ei dystysgrif geni neu ei basbort, bydd gofyn i'r myfyriwr newid ei enw drwy'r weithred newid enw.

Mae hawl gan berson ifanc newid ei enw'n gyfreithiol trwy'r weithred newid enw cyn troi'n 16, cyn belled â bod pawb sydd â chyfrifoldeb rhieni yn cytuno. Ar ôl troi'n 16, mae'r hawl gan y person ifanc i newid ei enw trwy'r weithred newid enw heb ganiatâd ei rhieni. Ar ôl troi'n 18, mae hawl gan y person ifanc i dystysgrif geni newydd ynghyd â Thystysgrif Cydnabod Rhyw trwy'r Panel Cydnabod Rhywedd.

Am ragor o wybodaeth ar sut i newid enwau ar dystysgrifau geni, dilynwch y ddolen ganlynol:

www.deedpoll.org.uk/CanABirthCertificateBeChanged.html

Gweithdrefn newid enw (yn answyddogol) i fyfyrwyr AB/AU, DSW Coleg Gŵyr Abertawe

- Rhaid i bob myfyriwr sy'n hysbysu aelod o staff o'i fwriad i newid ei enw gwblhau **Ffurflen Newid Manylion**, sydd ar gael yn y dderbynfa. Ar gyfer myfyrwyr DSW, bydd y ffurflen yn cael ei ddanfôn at y Cydlynnydd Cytundebau a Chwynion. Bydd ffurflenni AB ac AU yn cael eu danfon yn syth at MIS.
- Ar ôl derbyn y ffurflen o dan sylw, bydd MIS yn diweddarau ei gofnodion gan gyflwyno'r enw/rhyw newydd i ffeil yr unigolyn (os yw'n berthnasol).
- At ddibenion cofrestru arholiadau, bydd enw cyfreithiol yr unigolyn yn cael ei ddefnyddio a bydd tystysgrifau arholiad yn cael eu dosbarthu o dan yr un enw
- Er mwyn sefyll arholiadau, bydd rhaid i fyfyrwyr sydd wedi newid eu henwau (yn answyddogol) dderbyn cerdyn adnabod sy'n dangos eu henwau cyfreithiol
- Ar gyfer cleientiaid sy'n rhan o raglenni cyflogadwyedd y coleg e.e. Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol, bydd gofyn iddynt hysbysu eu Hyfforddwyr Gyrfa o'u bwriad i newid eu henwau. Bydd hyn wedyn yn cael ei gofnodi yn 'llyfr gweithgaredd' yr unigolyn a bydd gofyn i'r unigolyn i'w lofnodi.

4.3 Trawsnewid

Yn gyffredinol, gellir rhannu'r broses o drawsnewid mewn i ddau gategori, cymdeithasol neu feddygol.

Trawsnewid cymdeithasol yw'r penderfyniad i fyw bywyd mewn rhywedd ddewisol. Gall phobl ifanc ac oedolion drawsnewid yn gymdeithasol heb gefnogaeth y Gwasanaeth Datblygu Hunaniaeth Rhyw (GIDS) a heb gefnogaeth CAMHS.

Mae trawsnewid meddygol yn golygu bod y person ifanc/oedolyn wedi gwneud y penderfyniad i dderbyn therapi hormonau neu wedi dewis ymgymryd â llawdriniaeth. Dim ond meddygon teulu neu CAMHS sy'n gallu cyfeirio at GIDS (ar gyfer unigolion sydd o dan 17) a bydd rhestr aros o 9 mis (fel arfer) cyn yr asesiad cychwynnol.

Mae'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau rhwng unigolion sy'n 14-16, er bod rhai atgyfeiriadau wedi cael eu gwneud ar unigolion mor ifanc â 4.

Bydd rhaid atgyfeirio myfyrwyr sy'n hyn na 17 at eu clinig hunaniaeth rywiol oedolion rhanbarthol.

4.4 Gweithgareddau Cwricwlwm/Tîm

Mewn rhai achosion bydd rhaid cynnal gweithgareddau un rhyw megis pêl-droed i ferched, rygbi dynion a dysgu sydd wedi'i dargeddi ar gyfer rhyw benodol. Cyhyd â bod angen amlwg, bydd y Ddeddf Gydraddoldeb yn caniatáu ac yn cymeradwyo darpariaeth o'r fath.

Rhaid iddi fod yn glir i'r cyfranogwyr eu bod yn gallu cystadlu yn ôl eu hunaniaeth rhyw ddewisol. Er enghraifft, gall ddyn traws gymryd rhan mewn tîm rygbi dynion, yn yr un modd a gall menyw draws gymryd rhan mewn pêl-droed i fenywod.

Gweithgareddau Chwaraeon

Dylid rhoi ystyriaeth i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â gweithgareddau chwaraeon, yn enwedig i ddynion traws, gan eu bod yn gwisgo rhwymwyr (binders). Er enghraifft, gall ddynion ifanc traws sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau megis dringo neu ganwio profi anghysur corfforol, sy'n gallu gwneud iddynt deimlo fel na allant gymryd rhan yn y gweithgaredd. Dylid cynnal asesiadau risg cyn dechrau'r gweithgaredd er mwyn meddwl am opsiwn arall, neu feddwl am addasiad rhesymol i'r gweithgaredd.

4.5 Cod Gwisg

Mae gan fyfyrwyr sy'n cwestiynu eu rhyw wisgo dillad sy'n unol â'u hunaniaeth rhywedd.

4.6 Cyfrinachedd

Mae gan yr holl fyfyrwyr, gan gynnwys pobl ifanc/oedolion traws a'r rhai nad sy'n penni eu rhywedd hawl i gyfrinachedd. Ni ddylai aelodau o'r staff:

- Ddosbarthu unrhyw wybodaeth allai ddatgelu hunaniaeth myfyrwyr sy'n dangos diffyg cydymffurfio/trawryweddol i eraill, gan gynnwys rheini, gofalwyr ac unrhyw berson arall o gymuned y Coleg, oni ofynnir yn gyfreithiol iddynt wneud hynny neu am fod y person ifanc/oedolyn wedi gofyn yn benodol iddynt wneud hynny.
- Ni ddylai'r staff drafod myfyrwyr traws tu allan i ffiniau'r Coleg, hyd yn oed gyda ffrindiau agos. Mae hyn yn cynnwys trafodaeth pan ni enwir yr unigolyn yn uniongyrchol. Mae'r gymuned draws yn un bach iawn a gellir peryglu cyfrinachedd unigolyn drwy wneud cyfeiriadau/sylwadau. Mae trosglwyddo gwybodaeth am statws unigolyn traws i drydydd parti (heb ganiatâd yr unigolyn) yn drosedd.
- Mae gan bobl ifanc/oedolion traws a'r rhai sy'n cwestiynu eu rhyw'r hawl i drafod a mynegi eu hunaniaeth rhywedd, a'r hawl i benderfynu faint o wybodaeth sy'n cael ei rhannu (a chydaw pwy), yn ogystal ag amseriad y wybodaeth.

Rhannu Gwybodaeth gyda Rhieni/Gofalwyr

Ni ddylai wybodaeth gyfrinachol gael ei rhannu gyda rhieni/gofalwyr heb ganiatâd yr unigolyn y person ifanc. Os siaradir â rhieni/gofalwyr yr unigolyn traws neu'r unigolyn sy'n cwestiynu ei rhywedd, mae'n bwysig bod enw a rhag enwau cyfreithiol yr unigolyn cael ei ddefnyddio a'r rhyw a osodwyd ar enedigaeth yr unigolyn, oni bai bod yr unigolyn wedi dweud fel arall.

4.7 Defnyddio Toiledau

Mae gan unigolion ifanc/oedolion traws hawl i ddefnyddio toiledau y gwelir yn addas i'w rhyw, yn ogystal, gallant ddefnyddio toiledau niwtral o ran rhywedd os oes gwell ganddynt wneud hynny. Mae'r opsiwn ganddynt hefyd o ddefnyddio toiledau penodedig ar gyfer eu rhyw.

4.8 Defnyddio Ystafelloedd Newid

Mae hawl gan fyfyrwyr traws i ddefnyddio ystafelloedd newid sy'n unol â'u hunaniaeth rhyw. Mae hyn wedi'i seilio ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n golygu y byddai gwrthod mynediad i berson ifanc i ystafell newid ei wir hunaniaeth yn gyfystyr â gweithred o wahaniaethu.

Os bydd rhiant/gofalwr yn gwneud cwyn am e.e. bachgen traws yn defnyddio'r un ystafell newid â'i mab, yna mae'n ddyletswydd ar y Coleg i wneud trefniadau i'r person sy'n teimlo'n anghyfforddus i newid mewn ystafell ar wahân. Ni fydd y Coleg yn gorfod gwneud trefniadau i'r person traws.

4.9 Teithiau Preswyl

Byddai eithrio myfyrwyr trawsryweddol o deithiau preswyl yn mynd yn groes i'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae'r hawl gan fyfyrwyr traws i gysgu mewn manau cysgu sy'n unol â'u rhyw. Mewn achosion lle nad yw'r myfyriwr traws yn teimlo'n gyfforddus gyda hyn, bydd trefniadau cysgu amgen yn cael eu gweithredu. Dylai'r ystyriaeth hon fod yn berthnasol i ddewisiadau/nodweddion gwarchoddedig pob myfyriwr.

Ar gyfer teithiau tramor, bydd gofyn i staff ymchwilio'r cyfreithiau sy'n ymwneud â chymunedau Trawsryweddol. Mae gan y Gymdeithas Lesbiaid a Hoywon Ryngwladol (ILGA) wybodaeth ar eu gwefan am wledydd sy'n peri risg i unigolion traws.

<https://www.ilga.org/maps-sexual-orientation-laws>

Bydd teithiau tramor yn gofyn i'r myfyrwyr feddu ar basbort. Gallai hyn achosi problem i fyfyrwyr traws. Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i ddynion traws ar deithiau preswyl gan eu bod yn gorfod cynnal anghenion hylendid eu rhwymwyr. Gorchudd adeiladol yw'r rhwymwr sy'n cywasgu'r bronnau.

Mae rhwymwyr yn ddrud iawn ac mae hyn fel arfer yn golygu mai un rhwymwr yn unig sydd gan fyfyriwr. Mae'r rhwymwr/wyr yn cael eu golchi yn y nos. Mae'n bwysig bod yr anghenion yma'n cael eu trafod a'u hystyried gyda'r myfyriwr o flaen llaw.

Rhaid i bob rhestr cyfarpar ar gyfer teithiau preswyl fod yn niwtral o ran rhywedd.

Os ydych yn pryderi dros rywbeth, fel aelod o'r staff, cysylltwch ag Anne Pitman, Rheolwr Diogelwch a Lles Dysgwyr, neu unrhyw staff dynodedig a rhestrir yn adran 5.

5. Staff Dynodedig sydd â chyfrifoldeb o gefnogi Myfyrwyr Trawsryweddol

Mae pob Swyddog Cymorth Myfyrwyr wedi dilyn hyfforddiant ar sut i gefnogi pobl ifanc/oedolion Traws ac wedi cefnogi llawer o bobl ifanc/oedolion traws dros y blynyddoedd.

Ian Billington	01792 890708
Ryan McCarley	01792 284193
Mo Qasim	01792 284000 ex 3214
Cathy Thomas	01792 890772
Vicki Wannell	01792 284277

Ar gyfer myfyrwyr DSW, yn ogystal â'r swyddogion cymorth i fyfyrwyr, gallant hefyd gysylltu â'u hundeb am gymorth.

6. Cyfweld Myfyrwyr Trawsryweddol

Mae'n bwysig cydymffurfio â chod ymarfer proffesiynol yn eich ardaloedd, yn ogystal â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Os oes gennych chi unrhyw bryderon a'ch bod am dderbyn cymorth, dylech gyfeirio at Anne Pitman, Rheolwr Diogelwch a Lles Dysgwyr neu unrhyw staff dynodedig a restrir yn adran 5 sydd â chyfrifoldeb cefnogi.

7. Yr Iaith Gymraeg

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Atodiad 1 Diffiniadau a gwefannau defnyddiol

Biffobia	Person sydd yn teimlo ofn neu atgasedd tuag at rywun sy'n ddeurywiol
Deurywiol	Person sydd â chyfeiriadedd rhamantus a rhywiol i fwy nag un rhyw
Cisryweddol	Person sydd yn cytuno gyda'i hunaniaeth rhyw enedigol
Dysfforia Rhywedd	Person sydd yn anghytuno ac yn teimlo'n anghyfforddus gyda'i hunaniaeth rhyw enedigol
Rhyweddhyllifol	Person sy'n symud rhwng dwy hunaniaeth rhywedd
Ailbennu Rhywedd	Term cyfreithiol sy'n disgrifio person sy'n mynd trwy'r broses o drawsnewid meddygol, gall hefyd fod yn derm sy'n disgrifio person sy'n newid ei enw/rhagenw/hunaniaeth rhywedd a'r ffordd y mae'r unigolyn yn gwisgo. Mae ailbennu Rhywedd yn nodwedd warchoddedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010.
Rhyw Amrywiaethol	Person nad sy'n cydymffurfio ag ymddygiad a rolau ei rhyw enedigol. Defnyddir y term hwn fel arfer mewn perthynas â phlant.
Cwestiynu Rhywedd	Person sy'n cwestiynu ac ymchwilio ei hunaniaeth rhywedd.
Rhyngrywiol	Term a ddefnyddir i ddisgrifio person sy'n meddu ar feddylfryd nad sy'n cydymffurfio â nodweddion corfforol a biolegol y dyn a'r menyw arferol. Gall fod ganddynt nodweddion gwrywaidd a benywaidd. Mae 'Rhyngrywiol' yn derm sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio ystod eang o nodweddion.
LGBT LGBTQI+	Yr acronym a ddefnyddir i ddisgrifio pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws. Defnyddir 'Q' i ddisgrifio pobl 'queer' a phobl sy'n cwestiynu eu rhywedd a defnyddir 'I' i ddisgrifio pobl rhyngrywiol gyda '+' yn disgrifio pobl sy'n cynrychioli a chroesawi hunaniaethau eraill.
Anneuaid	Term a ddefnyddir i ddisgrifio person nad sy'n cydnabod ei hun fel dyn neu fenyw.
Traws	Term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio person sy'n anghytuno/anghyfforddus gyda'i rhywedd genedigol.
Trawsnewid	Mae dau fath gwahanol o drawsnewid; meddygol a chymdeithasol. Mae trawsnewid meddygol yn cyfeirio at berson sy'n ymgymryd ag ymdriniaeth feddygol megis therapi hormonau/llawdriniaeth. Dyw pob person traws ddim yn gallu/eisiau ymyrraeth feddygol Mae trawsnewid cymdeithasol yn cyfeirio at berson sy'n hysbysu ei deulu a'i ffrindiau am y trawsnewid. Golyga'r term hefyd berson sy'n gwisgo yn unol â'i hunaniaeth rhywedd.

	Mae'n rhaid meddu ar dystysgrif cydnabod rhywedd er mwyn trawsnewid yn gyfreithiol gan fod rhywedd yn cael ei benni'n gyfreithiol trwy dystysgrif geni neu dystysgrif cydnabod rhywedd.
Trawsrywiol	Defnyddir y term hwn yn y Ddeddf Cydraddoldeb i ddisgrifio person sydd wedi trawsnewid i fyw o dan hunaniaeth rhywedd o'i ddewis ei hun. Mae'n well gan y rhan fwyaf o bobl traws ddefnyddio'r termau 'traws' a 'trawsryweddol'

8. Gwefannau Defnyddiol

Canllawiau i bobl traws ifanc

<http://cdn0.genderedintelligence.co.uk/2012/11/17/17-15-02-A-Guide-For-Young-People.pdf>

Grwpiau cefnogi ar gyfer pobl traws yng Nghymru

<https://www.stonewallcymru.org.uk/help-advice/whats-my-area>

<https://www.mermaidsuk.org.uk/>

<http://youthcymru.org.uk/transform-cymru/>

<https://www.stonewallcymru.org.uk/>

Gwefannau Undebau TUC defnyddiol i DSW: Canllawiau Claire Mullaly ar sut i gefnogi pobl traws

<https://www.tuc.org.uk>

[Unity Group Wales](#)

[Umbrella Cymru.](#)